



Taflod Holtt

Rhwydwaith Gwefus a Thaflod Holtt
Gogledd Orllewin Lloegr, Ynys Manaw a Gogledd Cymru

Llongyfarchiadau ar enedigaeth eich babi.

Yng Ngogledd Orllewin Lloegr, Ynys Manaw a Gogledd Cymru, mae tîm o bobl yn arbenigol yn gofalu am blant sy'n cael eu geni â gwefus a/neu daflod hollt. Efallai y byddwch yn cyfarfod â llawer o'r bobl hyn yn ystod triniaeth eich plentyn.

Mae holltau yn y wefus a/neu'r daflod yn affeithio ar oddeutu 1 plentyn mewn 700 a enir yn y wlad hon. Weithiau maent yn cael eu hetifeddu ond yn aml gallant ddigwydd heb unrhyw reswm amlwg.

Beth yw taflod hollt?

Y daflod sy'n ffurfio to'r geg ac mae fel arfer yn gwahanu eich ceg a'ch trwyn. Mae taflod hollt yn golygu bwlch yn nho'r geg. Efallai bod y bwlch hwn yn cynnwys y daflod feddal yng nghefn y geg neu'n ymestyn ymhellach ymlaen i'r daflod esgyrnog, galed.

Sut alla i helpu fy mabi?

Efallai eich bod wedi bod anadlu eich babi'n swnllyd pan fydd yn gorwedd ar ei gefn/chefn. Efallai bod hyn oherwydd bod tafod eich babi'n syrthio yn ôl i'r hollt ac yn rhwystro anadlu trwy'r trwyn yn rhannol. I helpu i wneud eich babi'n fwy cyfforddus, rydym yn argymhell eich bod, am yr ychydig fisoedd cyntaf, yn rhoi eich babi ar ei (h)ochr i gysgu.

A fydd angen llawdriniaeth ar fy mabi?

Bydd, fel arfer bydd taflod hollt yn cael ei drwsio erbyn y bydd y babi'n flwydd oed. Bydd yr union amser yn dibynnu ar iechyd a chynnydd eich plentyn a byddwch chi a'r llawfeddyg yn cytuno ar hyn.

Mae'r lluniau'n dangos plant â gwahanol fathau o daflod hollt cyn ac ar ôl llawdriniaeth.



Dyma Megan. Mae'r lluniau'n dangos ei Thaflod Hollt cyn ac ar ôl ei llawdriniaeth.



Grace yw'r ferch fach yma. Mae'r lluniau'n dangos ei Thaflod Hollt cyn llawdriniaeth ac yn syth wedyn â'r pwythau'n dal yn eu lle.



Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn trefnu apwyntiad mewn clinig i chi gyfarfod â'r Tîm Gwefus a Thaflod Hollt, fel arfer yn y pedair wythnos nesaf. Bydd eich Nyrs Glinigol Arbenigol yn parhau i'ch gweld yn eich cartref yn ystod camau cynnar triniaeth eich plentyn.

Awgrymiadau/Sylwadau

Mae'r staff yma i helpu ac mae'n bwysig eu bod yn cael gwybod os bydd gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y gwasanaethau rydych wedi'u derbyn. Os dymunwch siarad ag aelod o'r Tîm Gwefus a Thafnod Holtt ffoniwch ni ar:

Lerpwl: 0151 252 5209

Manceinion: 0161 701 9007

Dydd Llun i ddydd Gwener, 9.00 am hyd 5.00 pm

Neu gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Cyswllt a Chyngor Cleifion (PALS):

PALS Manceinion: 0161 701 8700, dydd Llun i ddydd Gwener 9.00 am hyd 4.00 pm, e-bost childrens.pals@cmft.nhs.uk

PALS Lerpwl: 0151 252 5374/5161, dydd Llun i ddydd Gwener 9.00 am hyd 4.30 pm, e-bost PALS@alderhey.nhs.uk

Gwybodaeth a chysylltwyr allanol

Y Gymdeithas Gwefus a Thafnod Holtt (CLAPA)

Llawr Cyntaf, Green Man Tower,
332b Goswell Rd, Llundain EC1V 7LQ
Ffôn: 0207 833 4883 • Ffacs: 0207 833 5999
E-bost: info@clapa.com • gwefan: www.clapa.com

Changing Faces

The Squire Centre, 33-37 University Street,
London, WC1E 6JN
Tel: 0845 4500 275 • Fax: 0845 4500 276
E-mail: info@changingfaces.org.uk
web: www.changingfaces.org.uk

This information is available in English, if preferred.

Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Saesneg, pe baech yn dymuno hynny.

Mae taflenni gwybodaeth am ein gwasanaeth ar gael i'w llwytho i lawr o wefannau Ysbyty Plant Alder Hey ac Ysbyty Plant Brenhinol Manceinion:

www.alderhey.com/services/cleftpalate.asp

www.cmft.nhs.uk/childrens-hospitals/our-services/cleft-lip-and-palate.aspx

© Hawlfraint Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Ysbytai Prifysgol Canol Manceinion